

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn



Heol y Bardd, Porth Tywyn,

Sir Gaerfyrddin SA16 0NL

Ffôn:- 01554 832101

Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

www.ysgolparcytywyn.co.uk

Pennaeth / Headteacher : Mrs. A. Williams

Newid Arfaethedig i'r Diwrnod Ysgol – Medi 2025

7.05.25

Annwyl rieni a gofawyr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn cynnig newid amseroedd y diwrnod ysgol, i ddod i rym o fis Medi 2025 ymlaen. Daw'r newid arfaethedig hwn yn dilyn adolygiad mewnol ac adborth gan randdeiliaid, ac mae'n anelu at gefnogi dysgu disgyblion, lleihau tagfeydd traffig lleol, ac at wella diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chasglu.

Mae'r diwrnod ysgol ar hyn o bryd yn rhedeg fel a ganlyn:

- **Cyfnod Sylfaen (Meithrin i Flwyddyn 2):** 9:00am – 3:20pm
- **Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 3 i 6):** 9:00am – 3:25pm

Rydym yn cynnig y newidiadau canlynol, i ddod i rym o ddechrau Tymor yr Hydref ym Medi 2025:

- **Meithrin Llawn Amser a Derbyn:** 8:50am – 2:50pm
- **Blwyddyn 1 a 2:** 8:50am – 2:50pm
- **Blwyddyn 3 a 4:** 8:50am – 3:05pm
- **Blwyddyn 5 a 6:** 8:50am – 3:05pm

Er y bydd y diwrnod yn dechrau ac yn dod i ben yn gynharach, ni fydd unrhyw leihad yn yr amser addysgu a dysgu cyffredinol. Bydd disgyblion yn parhau i elwa o egwyl ginio strwythuredig a chyfleoedd rheolaidd i orffwys trwy gydol y dydd. Bydd amser addysgu'n parhau i gael ei ddiogelu'n llawn ac yn unol â gofynion cenedlaethol.

I deuluoedd sydd â phlant mewn mwy nag un grŵp blwyddyn, bydd pob brawd/chwaer yn aros yn yr ysgol tan yr amser casglu olaf, er mwyn osgoi'r angen am fwy nag un casgliad.

Prif resymau'r newid arfaethedig yw:

- **I wella diogelwch:** Mae maes parcio'r ysgol yn aml yn orlawn adeg casglu, gan greu peryglon i ddisgyblion a theuluoedd. Trwy raddoli amseroedd casglu ar draws grwpiau blwyddyn, ein nod yw lleihau'r pwysau a gwella llif traffig.
- **I gefnogi teuluoedd sy'n gweithio:** Trwy newid amseroedd y diwrnod ysgol, bydd y Clwb Brecwast yn gallu dechrau am 8:00am yn lle 8:10am, sydd yn cefnogi ceisiadau gan rieni sydd angen cyrraedd gwaith yn gynharach yn y bore. Mae cyfleoedd ar gyfer clybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol hefyd yn cael eu harchwilio i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio yn y prynhawn, gyda gwybodaeth bellach i'w

ddarparu maes o law. Rydym hefyd yn ffodus i gael clwb ar ôl ysgol yn gweithredu yn Ysgol Parc y Tywyn.

- **I gefnogi dysgu:** Dengys ymchwil fod plant yn fwy effro ac yn gallu canolbwyntio'n well yn gynharach yn y dydd. Bydd dechrau cynharach yn manteisio ar y cyfnod gorau hwn ar gyfer dysgu. Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer o deuluoedd yn casglu plant yn gynnar ar rai dyddiau i fynychu gweithgareddau ar ôl ysgol. Bydd y newid hwn yn helpu i osgoi colli amser dysgu yn sgil hynny.
- **I leihau tagfeydd lleol:** Mae ysgolion cyfagos, megis Ysgol Gyfun y Strade, Glan y Môr a Phorth Tywyn a Phen-Bre, yn dilyn amseroedd tebyg o ran dechrau a gorffen. Bydd ein hamseroedd diwygiedig yn helpu i leihau gor-orchwyllo traffig ar y ffyrdd cyfagos.
- **I gefnogi trefn teuluol:** Gall gorffen ychydig yn gynharach helpu rhieni i gyd-drefnu casglu os oes ganddynt blant mewn ysgolion gwahanol.

Rydym yn eich gwahodd yn gynnes i fynychu Cyfarfod Ymgynghori â Rhieni ar ddydd Mercher 21 Mai 2025 am 5:30pm, yma yn yr ysgol, i rannu eich barn ar y cynnig a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Os nad ydych yn gallu bod yn bresennol neu os hoffech rannu eich barn, mae croeso i chi lenwi ffurflen adborth fer, drwy'r ddolen isod:

<https://forms.office.com/e/1a6Tt3uQ76>

Rydym yn falch i weithio mewn partneriaeth â chi i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n disgyblion. Diolch i chi am gymryd yr amser i ystyried y cynnig hwn ac am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

A. Williams

Pennaeth / Headteacher

